

# Cyngor Dinas Bangor

## Cofnodion y Cyngor Llawn

Dydd Llun, Mehefin 8fed 2026, Neuadd Penrhyn, 18.30

### Presenoldeb

**Cynghorwyr:** Cygn: Delyth Russell (Cadeirydd), Jackie Spence (Dirprwy Gadeirydd), Elin Walker-Jones, John Wyn Jones, Salamatu Fada, Sam Njoku, Gareth Parry, Mustakim Raza, Gwynant Roberts, Eirian Williams Roberts, Lisa Toth, John Wyn Williams, Medwyn Hughes, Jac Jolly

**Swyddogion:** Martin Hanks, Cyfarwyddwr y Ddinas, Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol  
Lisa Goodier, Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddinas  
Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol

**Eraill:** Sioned Jones, Cyfieithu

**Ymddiheuriadau::** Cygn: Nigel Pickavance, Nick Pritchard, Steven Bell

**Absennol heb ymddiheuriad:** Cygn: Dylan Fernley, Huw Wyn Jones, Gareth Roberts

---

Dechreuodd y cyfarfod am 18.37.

Camau	Cyfeirnod	Eitem
-------	-----------	-------

- |    |                |  |
|----|----------------|--|
| 1. | <b>FC12/26</b> | <b>Ymddiheuriadau:</b><br>Ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan y Cynghorwyr: Steve Bell, Nigel Pickavance, Nick Pritchard.   |
| 2. | <b>FC13/26</b> | <b>Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:</b><br>Datganodd y Cynghorydd Medwyn Hughes fuddiant yn yr eitemau canlynol a dywedodd y byddai'n ymatal rhag pleidleisio:<br><br>Eitem 4: Cyfethol Cynghorydd i sedd wag Ward Marchog<br>Eitem 13: Ymateb i ymgynghoriad Lefel Ymwelwyr Cyngor Gwynedd  |
| 3. | <b>FC14/26</b> | <b>Cyfranogiad y Cyhoedd:</b><br>Dim byd i'w nodi.   |
| 4. | <b>FC15/26</b> | <b>I gyfethol Cynghorydd ar sedd wag ward Marchog:</b><br>Gwnaeth tri ymgeisydd gais am swydd Cynghorydd Dinas ward Marchog. Cynigiwyd cyfle i bob un ohonynt annerch y Cyngor Llawn i siarad am eu rhesymau a'u cymhelliant dros fod eisiau cynrychioli trigolion ward Marchog.<br><br><b>Ymatal pleidlais:</b> Ni phleidleisiodd y Cynghorydd Medwyn Hughes gan fod ganddo gysylltiad personol ag un o'r ymgeiswyr sy'n gwneud cais am y sedd. |

**Penderfynwyd:**

Allan o dri ymgeisydd a oedd yn cyflwyno, etholwyd Jac Jolly i'r sedd.

5. **FC16/26** **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor (9 Mawrth 2026):**

**Penderfynwyd:**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor fel cofnod gwir a chywir.

6. **FC17/26** **I dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Ddinas:**

Codwyd sawl pwynt gan Gynghorwyr nad oeddent yn eitem ar yr agenda nac wedi'u cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr y Ddinas. Trafodwyd y rhain yn fanwl ac maent wedi'u dogfennu isod er mwyn cywirdeb gweinyddol.

Gofynnir yn garedig i Gynghorwyr nodi, yn groes i **Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12: Cyfarfodydd a Thrafodion**, na ddylid trafod eitemau nad ydynt ar yr Agenda yn y Cyngor Llawn.

Pwyntiau a godwyd, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn adroddiad Cyfarwyddwr y Ddinas oedd:

- Ymholiadau gan Gynghorwyr mewn perthynas â diweddariad ar drosglwyddo prydles ar gyfer y tir ar Ffordd Farrar a Sgwâr Kyffin, er mwyn iddo allu cael ei dirlunio.

Eglurhad sydd ei angen ar Gynghorwyr gan Gyfarwyddwr y Ddinas ynghylch sut y gwariwyd cyllid grant ar gyfer tirlunio y llynedd ar gyfer y darnau hynny o dir.

Gofynnwyd i Gyfarwyddwr y Ddinas gan Gynghorwyr ddarparu ymatebion ar yr uchod, cyn y Cyngor Llawn nesaf ar 29 Mehefin 2026.

**Penderfynwyd:**

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyngor.

*Gadawodd y Cyngorydd Elin Walker Jones y cyfarfod: 19.09.*

7. **FC18/26** **I gymeradwyo strwythur a aelodau pwyllgorau'r Cyngor:**  
Dosbarthwyd dau opsiwn ar gyfer cyfundrefn cyfarfodydd y Cyngor i Gynghorwyr i'w hystyried a'u mabwysiadu ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

Ar ôl llawer o drafod, cytunodd y Gynghorwyr i fabwysiadu Opsiwn 1 ar gyfer Cyfundrefn Cyfarfodydd (Cyngor Llawn bob yn ail fis, gyda chyfarfodydd pwyllgor rhyngddynt).

Gwnaeth y Gynghorwyr yr awgrymiadau canlynol wrth symud ymlaen:

- Nodwyd bod sawl Cyngorydd ar y rhan fwyaf o'r pwyllgorau. Teimlwyd y dylai **pob** Cyngorydd gymryd sedd weithredol ar o

leiaf ddau bwyllgor.

- Byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn cyfarfod bob pythefnos pe bai ceisiadau cynllunio i'w trafod.

**Penderfynwyd:**

Mabwysiadu Opsiwn 1, Cyfarfod Cyngor Llawn misol gyda phwyllgorau rhyngddynt.

8. **FC19/26**

**I drafod y trwyddedau eistedd awyr agored yng nghanol y ddinas:**

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Nigel Pickavance annerch y Cyngor Llawn i drafod y posibilrwydd y gallai Cyngor Dinas Bangor ariannu'r 'dreth bwrdd' ar gyfer caffis/bwytai ar y Stryd Fawr, er mwyn iddynt gael seddi y tu allan i'w hadeiladau. Mae hyn wedi cael ei ariannu'n flaenorol gan BID Bangor, fodd bynnag, ers iddo ddod i ben ddiwedd mis Mawrth 2026, mae busnesau lleol yn gofyn am gymorth ariannol i dalu am y dreth bwrdd, a ofynnwyd gan Gyngor Gwynedd.

Gohiriwyd yr eitem hon i'r cyfarfod nesaf gan nad oedd y Cynghorydd Pickavance yn gallu mynychu'r cyfarfod.

9. **FC20/26**

**Cytuno i lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog:**

Gofynnwyd i gynghorwyr ystyried Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru:

Mae'r Cyfamod yn addewid parhaol rhwng pobl y Deyrnas Unedig, y llywodraeth a'r rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd. Mae'n cydnabod yr aberthau a wneir gan aelodau'r gwasanaeth a'u teuluoedd ac yn sicrhau nad ydynt yn wynebu unrhyw anfantais o'i gymharu â dinasgyddion eraill wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a masnachol, gyda ystyriaeth arbennig i'r rhai sydd wedi'u hanafu a'r rhai sydd wedi colli eu bywydau.

**Penderfynwyd:**

I dderbyn ac arwyddo'r Cyfamod.

10. **FC21/26**

**I gymeradwyo cyfranogiad yn Wythnos y Lluoedd Arfog 2027:**

Cynigiwyd cyfle i gynghorwyr ystyried digwyddiad Wythnos Lluoedd Arfog Bangor.

- Roedd cynghorwyr yn bryderus am y costau posibl a theimlent nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i ymateb yn ffurfiol.
- Roedd cynghorwyr yn bryderus am nifer y digwyddiadau tebyg mewn trefi cyfagos, e.e. Caernarfon, Llandudno, Llangefni, Caergybi, ac roeddent yn teimlo y gallai digwyddiad ym Mangor fod yn ddyblygiad diangen.

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyodd y Cynghorwyr hyn mewn egwyddor gan ganiatáu i Swyddogion y Cyngor ddatblygu'r syniad/cyfranogiad yn llawnach ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn.

11. **FC22/26** **I benderfynu a ddylid dyfarnu Rhyddid Dinas Bangor yn 2026:**  
Gofynnwyd i'r cynghorwyr a hoffent enwebu preswlydd o Fangor ar gyfer Rhyddid y Ddinas ar gyfer blwyddyn ddinesig 2026/27.

Teimlai'r cynghorwyr y dylai'r broses gael ei pholisi a'i gweithdrefn ei hun ynghyd â 'meini prawf i'w bodloni' cyn symud ymlaen ymhellach gydag enwebiadau. Teimlai'r cynghorwyr hefyd na ddylid ystyried Rhyddid y Ddinas fel gofyniad blynyddol, ond yn gyfle i gael ei ystyried 'o dan amgylchiadau eithriadol o gyflawniad personol'.

**Penderfynwyd:**

- Swyddogion i ddrafftio meini prawf a phroses ar gyfer cyflwyno ymgeiswyr priodol i'w cymeradwyo gan Gynghorwyr.
- Gohirio unrhyw benderfyniadau tan Chwefror/Mawrth 2027.

12. **FC23/26** **Cymeradwyo dyfarnu cytundeb gwyrddu i Antur Waunfawr/Cyngor Gwynedd, cyfanswm o £8,000:**

Derbyniodd y cynghorwyr adroddiad ar gaffael contract 'cynnal a chadw blodau' ar gyfer planwyr yng nghanol y ddinas. Y contractwr a ffefrir oedd tîm o fewn Cyngor Gwynedd sy'n darparu cyfleoedd gwaith i oedolion agored i niwed.

**Penderfynwyd:**

- Rhoddodd y Cyngor llawn awdurdod dirprwyedig i'r Pwyllgor Cyllid a Monitro i adolygu a chymeradwyo'r contract yn uniongyrchol, os yw'n briodol.
- Bydd Pwyllgor Cyllid a Monitro ychwanegol yn cael ei alw'r wythnos hon (wythnos yn dechrau 8 Mehefin 2026) i drafod y mater.

13. **FC24/26** **I ymateb i Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr Cyngor Gwynedd:**  
Derbyniodd y cynghorwyr adroddiad ymgynghori manwl gan dîm Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd, yn gofyn am adborth ynghylch lefel y gefnogaeth (neu beidio) i'r Ardoll Ymwelwyr arfaethedig.

Ymatal rhag pleidleisio: Ni phleidleisiodd y Cynghorydd Medwyn Hughes oherwydd gwrthdaro buddiannau (ef yw Arweinydd Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi, yr adran sy'n arwain yr ymgynghoriad hwn).

**Penderfynwyd:**

Cytunodd y Cyngor i 'Gefnogi'r ymgynghoriad yn Gryf'.

**Daeth y cyfarfod i ben am: 20.55.**

**Wedi'i lofnodi gan:** .....

**Dyddiad:** .....

